

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Comisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost / rhif ffôn: 0345 6033221

Eich cyfeiriad: lowri.williams@cyg-wlc.cymru

Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:

a) Beth yw eich barn ynghylch a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau yn fras â phrif gynghorau?

Rydym yn cytuno y dylai'r cyd-bwyllgorau corfforedig gael eu hystyried fel aelod o'r 'teulu llywodraeth leol' hyn gan y byddai hynny'n golygu eu bod hwy yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru)2011. Byddai hyn yn osgoi'r aneglurder presennol sy'n bodoli ynghylch dyletswyddau nifer o'r cyrff trawsffiniol rhanbarthol megis consortia addysg a'r bargeinion twf/dinesig o safbwynt cydymffurfio â safonau'r Gymraeg .

a) A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol, yn fras, â phrif gyngor, cyn belled â bod hyn yn gymesur? Nodwch eich rhesymau.

Mae rhai prif gynghorau a/neu adrannau o gynghorau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn bennaf ac mae eraill yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol o fewn eu sefydliadau. Gan eu bod yn gyrff newydd fydd yn cael eu sefydlu o'r newydd i bob pwrpas dyma gyfle gwych felly i sefydlu'r arfer o weinyddu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig trwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn gan ddilyn yr arfer sydd eisoes yn weithredol ymysg y cynghorau hyn. Dylid ymgorffori'r arfer hwn o fewn fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o'r dechrau un.

b) A ydych yn cytuno y dylai aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael disgrisiwn priodol o ran manylion y trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol? Nodwch eich rhesymau.

Dim sylw.

Cwestiwn Dau yr Ymgynghoriad:

Mae Arweinwyr llywodraeth leol wedi cytuno mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn adlewyrchu'r swyddogaethau a roddir iddynt gan y Rheoliadau Sefydlu hyn. A oes gennych unrhyw sylwadau neu arsylwadau am ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn mewn perthynas â'u swyddogaethau neu ddatblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol?

Rydym yn derbyn bod ymgynghori wedi digwydd i bennu'r ardaloedd y bwriedir i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu cwmpasu. Fodd bynnag, credwn y byddai'n fuddiol gwybod pa

ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg wrth bennu'r ardaloedd hyn a hynny o ystyried y safonau llunio polisi y mae awdurdodau lleol yn gweithredu unol â hwy. Mewn sawl achos mae'r rhanbarthau hyn yn cwmpasu ardaloedd tra gwahanol ac amrywiol eu natur ieithyddol yn ogystal ag economaidd a chymdeithasol. Rhaid sicrhau bod y cydweithio a fydd yn digwydd rhwng y cyd-bwyllgorau hyn yn fodd o atgyfnerthu'r Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob rhanbarth, ac i beidio â thanseilio ei sefyllfa o gwbl. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y meysydd y bydd y cyd-bwyllgorau yn gyfrifol am gydweithio ynddynt megis cynllunio, trafndiaeth, llesiant economaidd ac addysg. Fel y nodir uchod dyma gyfle i sefydlu'r Gymraeg fel iaith weinyddol y cyrff newydd hyn.

Cwestiwn Tri yr Ymgynghoriad:

- a) ***A ydych yn cytuno â'r dull o ddatblygu'r rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn? Nodwch eich rhesymau.***

Dim sylw.

- b) ***Rydym wedi nodi drwy gydol y ddogfen hon yr hyn sy'n debygol o gael ei gynnwys yn y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Er nad y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yw pwnc yr ymgynghoriad hwn, er mwyn llywio eu datblygiad a oes gennych unrhyw farn am unrhyw beth arall a ddylai gael ei gwmpasu?***

Rydym yn awyddus iawn i dderbyn eglurder ynghylch y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y cyd-bwyllgorau corfforedig yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o ddiwrnod cyntaf eu bodolaeth. Gan y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfrifol am faterion y mae prif gynghorau eisoes yn gyfrifol amdanynt a'u bod hwy yn gweithredu yn unol â safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd ni welwn pam na fydd modd gwneud hynny er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth di-dor â safonau'r Gymraeg. Deallwn o sylwadau'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol¹ y bwriedir gwneud hyn drwy 'reoliadau cyffredinol'. Nid yw'r rheoliadau yr ydych yn ymgynghori yn eu cylch yn gwneud hyn felly cymerwn y bydd y rheoliadau cymhwysio cyffredinol yn gwneud darpariaeth ar gyfer y dwyn y cyd-bwyllgorau corfforedig o dan safonau'r Gymraeg ac y bydd y cyd-bwyllgorau corfforedig felly yn gweithredu yn unol â'r un rheoliadau â chynghorau sir o'r dechrau'n deg.

Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad:

- a) ***A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu aelodaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys cyfethol aelodau ychwanegol? Nodwch eich rhesymau.***

Dim sylw.

- b) ***Beth yw eich barn am y rôl a gynigir ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y disgrifir uchod?***

Dim sylw.

¹ [Plenary 10/11/2020 - Welsh Parliament \(assembly.wales\)](https://www.assembly.wales)

Cwestiwn Pump yr Ymgynghoriad:

- a) Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o 'un bleidlais fesul aelod' a'r hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen?**

Dim sylw.

- b) Beth yw eich barn am y cworwm arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**

Dim sylw.

- c) Beth yw eich barn am y dull arfaethedig ar gyfer hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforedig?**

Dim sylw.

Cwestiwn Chwech yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am alluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfethol aelodau eraill a/neu benodi pobl i eistedd ar is-bwyllgorau?

Dim sylw.

Cwestiwn Saith yr Ymgynghoriad:

- a) A ydych yn cytuno y byddai'r dull o gyfethol aelodau yn golygu bod modd cael mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng ngwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig?**

Dim sylw.

- b) Beth allai fod ei angen i gefnogi aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid priodol yn eu gwaith?**

Yn benodol yng nghyd-destun yr amcan llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' rhaid sicrhau bod cyd-bwyllgorau corfforedig ar draws Cymru yn ymgysylltu â chyrff cymunedol a chenedlaethol sy'n gweithio er budd y Gymraeg, megis Mentrau Iaith, yr Urdd ayb. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd gofyn i gydbwyllgorau corfforedig weithredu yn unol â safonau llunio polisi sy'n golygu y bydd angen iddynt ystyried effeithiau eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli.²

² Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi canllaw ar ystyried y Gymraeg wrth lunio polisi.

Cwestiwn Wyth yr Ymgynghoriad:

- a) **A ydych yn cytuno y dylai aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn Prif Gynghorau? Nodwch eich rhesymau.**

Dim sylw.

- b) **Beth yw eich barn am fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig?**

Dim sylw.

- c) **A ddylai pob aelod cyfetholedig fod yn ddarostyngedig i'r cod, h.y. y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio a'r rhai nad oes ganddynt hawl i bleidleisio?**

Dim sylw.

Cwestiwn Naw yr Ymgynghoriad

- a) **Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o bennu gofynion cyllidebol Cyd-bwyllgor Corfforedig?**

Dim sylw.

- b) **Beth yw eich barn am yr amserlenni a gynigir (gan gynnwys ar gyfer y flwyddyn gyntaf) ar gyfer pennu'r gofynion cyllidebol a fydd yn daladwy gan y prif gynghorau cyfansoddol?**

Dim sylw.

Cwestiwn Deg yr Ymgynghoriad

- a) **A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â phrif gynghorau o ran arferion cyfrifyddu? Nodwch eich rhesymau.**

Dim sylw.

- b) **A ydych yn cytuno y dylai manylion am y ffordd y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig reoli ei arferion cyfrifyddu gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol? Os nad ydych yn cytuno, beth arall fyddai angen ei gynnwys yn y Rheoliadau Sefydlu?**

Dim sylw.

Cwestiwn Un ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o ymdrin â materion staffio a materion y gweithlu?

Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud mai'r 'nod yw sicrhau nad yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn mabwysiadu trefniadau sy'n wahanol iawn i'r mwyafrif o'u prif gynghorau cyfansoddol, gan gefnogi'r gallu i gyfnewid staff a chydweithredu lle y bo'n bosibl. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn sicrhau na chaiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei ddefnyddio fel dull o erydu (neu yn wir chwyddo) strwythurau cyflog drwy drosglwyddo staff / swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig, a phan fydd gwyrriad / gwahaniaeth bydd yn sicrhau bod y gwyrriad / gwahaniaeth hwnnw yn glir a thryloyw' ac y bydd swyddogion sy'n

trosglwyddo i weithio i Gyd-bwyllgor corfforedig yn gwneud hynny yn unol â egwyddorion Trosglwyddo Ymgynghoriadau, Diogelu Cyflogaeth. Yn hyn o beth mae'n bwysig nodi bod rhai cynghorau a/neu adrannau o gynghorau yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn bennaf a bod ymrwymiad gan eraill i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol y sefydliad. Mae angen sicrhau nad yw trosglwyddo i weithio i gyd-bwyllgor corfforedig yn erydu cyfleoedd unigolion i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a dylid cynnwys gofynion yn y rheoliadau hyn neu'r rheoliadau cymhwys cyffredinol sy'n amddiffyn hynny. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle gan gyd-bwyllgorau corfforedig sy'n galluogi swyddogion cynghorau cyfansoddol y maent yn cydweithio â hwy i barhau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar heb roi baich ychwanegol arnynt.

Cwestiwn Deuddeg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn mewn perthynas â'r gofyniad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael neu gael mynediad at "swyddogion gweithredol" statudol?"

Dim sylw.

Cwestiwn Tri ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

A oes gennych unrhyw farn arall am y ddarpariaeth ar gyfer materion staffio neu faterion y gweithlu o fewn y rheoliadau sefydlu?

Dim sylw, ond gweler ein hateb i gwestiwn 11 am faterion staffio yn ogystal.

Cwestiwn Pedwar ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

a) A yw'n glir pa swyddogaethau y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu harfer o ganlyniad i'r rheoliadau sefydlu hyn? Os nad yw, pam?

Deallwn beth yw'r swyddogaethau arfaethedig presennol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig o safbwynt datblygu, trafndiaeth a llesiant economaidd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n eglur beth yw atebolrwydd nifer o gyrff rhanbarthol mewn perthynas â safonau'r Gymraeg gan gynnwys consortia addysg a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (a sefydlwyd yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnig eglurder am hynny i'r dyfodol.

b) A oes angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddweud mwy am drefniadau cydredol? Os felly, beth arall sydd ei angen, neu a ddylid gadael hynny i'w benderfynu'n lleol?

Nid yw'n eglur beth fydd perthynas gwaith y cyd-bwyllgorau corfforedig â gwaith a blaenoriaethau awdurdodau lleol mewn meysydd y mae datblygu, trafndiaeth a llesiant economaidd yn dylanwadu'n uniongyrchol arnynt. Er enghraifft, mae gofyn yn unol â safonau'r Gymraeg i awdurdodau lleol lunio, a chyhoeddi ar eu gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut y bwriadant fynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardal. Mae'n rhesymol meddwl y byddai cyswllt uniongyrchol rhwng materion datblygu, trafndiaeth a llesiant economaidd ac addysg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd gwahanol. Mae'r un peth yn wir er enghraifft o safbwynt y gofyniad statudol sydd ar bob awdurdod lleol i gyhoeddi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Rhaid sicrhau felly bod cyswllt uniongyrchol rhwng blaenoriaethau'r cynghorau cyfansoddol o safbwynt y Gymraeg a pholisïau a gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae angen

rhagor o eglurder ynghylch hyn oherwydd mae amrywiaeth sylweddol rhwng natur ieithyddol nifer o'r awdurdodau lleol a gwmpesir gan y cyd-bwyllgorau corfforedig.

- c) A oes unrhyw swyddogaethau y gallai fod yn briodol eu hychwanegu at gylch gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol? Os oes, pa rai?**
Dim sylw.

Cwestiwn Pymtheg yr Ymgynghoriad:

A ydych o'r farn y dylai'r rheoliadau ddarparu i unrhyw beth fod yn benderfyniad a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na chael ei ddirprwyo i is-bwyllgor? Os felly beth?

Dim sylw.

Cwestiwn Un ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am y dull o drosglwyddo'r broses o arfer swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Gweler ein hymateb i gwestiwn 14b.

Cwestiwn Dau ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am wneud Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ehangach, fel y disgrifir uchod?

Rydym yn cefnogi'n llawn y bwriad y bydd cyd-bwyllgorau corfforedig yn gweithredu yn unol â'r un safonau'r Gymraeg â'r awdurdodau lleol presennol fel y nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 10 Tachwedd 2020. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith a champau penodol a statudol ar gyfer gosod safonau a gofynnwn ichi sicrhau y byddwch yn caniatáu cyfnod digonol o amser fel y bo'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu yn unol â'r safonau yn syth o'r diwrnod y byddant yn dod i fodolaeth er mwyn sicrhau na fydd bwlch mewn cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Nodwn bod y Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gynnal ei gyfarfod cyntaf erbyn diwedd Medi 2021. Edrychwn ymlaen felly at gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r darpar Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn fuan iawn yn 2021 i alluogi trefn a fydd yn golygu y byddant yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 erbyn y dyddiad hwnnw. Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidog er mwyn trafod yr amserlen a fydd yn galluogi hynny.

Cwestiwn Deunaw yr Ymgynghoriad:

- a) Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth leol i sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. A oes gennych unrhyw farn ar y ffordd orau o gyflawni hyn?**

Dim sylw.

- b) Yn eich barn chi, pa ofynion / elfennau craidd sydd angen bod ar waith er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn weithredol ac yn arfer ei swyddogaethau?**

Fel y nodom uchod bydd rhaid i gydbwyllgorau corfforedig fod yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o ddiwrnod cyntaf eu bodolaeth.

c) Yn benodol, beth sydd angen bod ar waith cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod am y tro cyntaf, ar ddiwrnod ei gyfarfod cyntaf ac ar ôl hynny?

Gweler ein hateb i 18b uchod.

Cwestiwn Pedwar ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

a) A ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Byddai, gweler isod.

b) A oes unrhyw feysydd penodol y dylai'r canllawiau eu cwmpasu?

Dylai canllawiau gwmpasu materion yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n cynnwys y canlynol:

- Sut mae gweinyddu yn y Gymraeg yn fewnol gydag anogaeth i'r cyrff newydd hyn weinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg er budd cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o safbwynt gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn *Strategaeth Cymraeg 2050*³ yn nodi: 'Mae rhai cyrff eisoes yn arwain y ffordd yn hyn o beth ac yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gweinyddu mewnol, gan gynyddu'r galw am sgiliau Cymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio. Fel prif gyflogwyr gwasanaethau rheng-flaen cyhoeddus yng Nghymru, bydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd llywodraeth leol a'r sector iechyd a gofal yn hynod bwysig yn hyn o beth.'
- Galluogi parhad mewn arferion gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg wrth drosglwyddo i weithio i gyd-bwyllgorau corfforedig
- Amddiffyn arferion gweinyddu yn Gymraeg cynghorau presennol wrth gydwethio â chydbwyllgorau corfforedig.
- Sut y bydd blaenoriaethau a dyletswyddau cynghorau lleol mewn perthynas â hybu'r Gymraeg yn cael eu hystyried a'u parchu wrth i gyd-bwyllgorau corfforedig weithredu.

Cwestiwn Ugain yr Ymgynghoriad:

a) Beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru gefnogi prif gynghorau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Dim sylw

b) A oes meysydd y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth?

Materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg (Gweler ein hatebion i gwestiwn 19)

c) A oes unrhyw beth y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei wneud/peidio â'i wneud nad yw'r Rheoliadau Sefydlu hyn yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd?

Dim sylw

Cwestiwn Un ar Hugain yr Ymgynghoriad:

a) A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau tebygol y rheoliadau a'n dull o ymdrin â nhw? Esboniwch eich ymateb.

Nodir 'Ni ddisgwylir y bydd sefydlu CBCau yn cael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg'. Fodd bynnag dylem dynnu eich sylw at bwysigrwydd amddiffyn a hybu'r

³ [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](#)

arfer o weinyddu yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn bod rhaid darparu canllawiau manylach ar wneud hyn neu mae'n bosibl y bydd sefydlu'r cyd-bwyllgorau corfforedig yn tansilio arferion gweinyddu mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg, a fyddai'n groes i amcanion Llywodraeth Cymru ei hun yn Strategaeth Cymraeg 2050 fel y nodwyd eisoes.

b) *A oes gennych unrhyw ddata ychwanegol/amgen er mwyn helpu i lywio'r asesiad terfynol o gostau a manteision sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Os oes, rhowch fanylion.*

Dim sylw.

Cwestiynau am y Gymraeg

Cwestiwn Dau ar Hugain yr Ymgynghoriad:

a) *Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu cael ar y Gymraeg - yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Rydym wedi tynnu sylw at nifer o effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a allasai ddeillio o sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr effaith bosibl ar gyfleoedd i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a phwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd i weinyddu'n fewnol yn Gymraeg a pharhau i alluogi sefydliadau ac unigolion sydd eisoes yn gweithio yn y Gymraeg i wneud hynny
- Y bydd y cyd-bwyllgorau yn gwasanaethu ardaloedd sy'n amrywiol iawn eu natur ieithyddol a bod angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth i'r cyd-bwyllgorau wneud penderfyniadau polisi sy'n berthnasol i'r holl ranbarth sy'n cael ei wasanaethu.
- Pwysigrwydd sicrhau bod gwaith y cydbwyllgorau yn adlewyrchu blaenoriaethau'r holl gynghorau o safbwynt hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

b) *Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?*

Yn anad dim rhaid sicrhau bod y cyd-bwyllgorau corfforedig yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn syth o'r dyddiad y byddant yn weithredol. Byddai'r safonau yn golygu y byddai'n rhaid i'r CBCau weithredu yn unol â safonau llunio polisi sy'n golygu y byddai'n rhaid iddynt ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Buasent hefyd yn gwneud rhai darpariaethau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn y sefydliadau.

Rydym wedi nodi yn ein hateb i gwestiwn 19 y buasai modd darparu canllawiau ar weinyddu mewnol fel un ffordd o gefnogi gwaith y cyd-bwyllgorau corfforedig. Byddai hyn yn ychwanegol at ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Gan eu bod yn gyrff newydd fydd yn cael eu sefydlu o'r newydd i bob pwrpas dyma gyfle gwych hefyd i sefydlu arferion ieithyddol newydd o'r cychwyn gan gynnwys pennu mai'r Gymraeg fydd iaith weinyddol y cyd-bwyllgorau corfforedig. Credwn y dylid rhoi ystyriaeth wirioneddol i'r awgrym hwn yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweinyddu'n fewnol fel y nodir yn Strategaeth Cymraeg 2050.

Dylid hefyd ystyried a oes potensial i ddatblygu cyd-bwyllgorau corfforedig mewn ardaloedd sy'n rhannu nifer o nodweddion cyffelyb yn economaidd, yn ieithyddol ac yn gymdeithasol ac sy'n wynebu heriau cyffelyb o safbwynt economaidd a chynllunio, megis gogledd orllewin a gorllewin Cymru. Rydym wedi nodi y buasai'n dda derbyn rhagor o eglurder ynghylch yr ystyriaeth a roddwyd i effaith pennu'r rhanbarthau hyn ar y Gymraeg.

Cwestiwn Tri ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sut y gellid atal unrhyw effeithiau andwyol o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gweler ein hateb i gwestiwn 22.

Cwestiwn Pedwar ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae'r ymatebion i ymgynghoriad yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: